



Swyddog Cefnogaeth Ddigidol i'r Sector Un Llais Cymru

£35,000 37 awr yr wythnos

(Cyfnod penodol Hyd: Tair blynedd)

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer y 735 Cyngor Cymuned a Thref yng Nghymru. Fel Swyddog Cefnogaeth Ddigidol i'r Sector Un Llais Cymru byddwch yn: Gweithredu'n gyswllt rhwng y sector Cyngorau Cymuned a Thref a sefydliadau eraill i gefnogi datblygiadau digidol yn y sector cyhoeddus i rannu ac eiriol dros fabwysiadu mentrau digidol, arfer gorau a safonau cyffredin; Adeiladu ar ac ehangu'r gwaith digidol da sydd i'w weld yn y sector yn barod; Darparu'r capasiti a'r galluogrwydd ychwanegol i allu adnabod, rhannu, hyrwyddo ac eiriol dros gyflwyno mentrau digidol mewn ffordd fwy cydlynol a'u darparu ar draws Cyngorau Cymuned a Thref ledled Cymru; Gweithio gyda chydweithwyr, gan gynnwys Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol a'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i gysoni gwaith gyda gweithgarwch ehangach ar faterion digidol a wneir ar draws y sector cyhoeddus; Cyfrannu at gyflawni prif ymrwymadau digidol Llywodraeth Cymru; Eiriol dros waith digidol yn y Gymraeg, gan sicrhau y caiff y Gymraeg ei hystyried yn yr holl gynlluniau a strategaethau i fanteisio ar rym technolegau digidol.

Dylai fod gennych:

- Brofiad amlwg o arwain mewn sefydliad neu sefydliadau mawr neu gymhleth a chyfrifoldeb am drawsnewidiadau digidol.
- Profiad o gyflwyno newid arwyddocaol o ran galluogrwydd DDaT gan ddefnyddio dulliau darparu Ystwyth ac egwyddorion Ystwyth.
- Y gallu i ymgysylltu'n effeithiol â budd-ddeiliaid er mwyn diffinio'r ffordd orau o gynllunio gwasanaethau.
- Y gallu i ddylanwadu ar ac adeiladu perthnasoedd ar bob lefel gyda nifer o fudd-ddeiliaid gwahanol, yn ogystal â bod yn chwaraewr tîm cydweithiol.
- Profiad a dealltwriaeth o gyd gyflawni prosiectau ac o reoli perthnasoedd aml-sefydliadol.
- Y gallu i gyflwyno cysyniadau digidol i gynulleidfa annhechnegol; a
- Phrofiad neu ddealltwriaeth o weithio yn neu gyda llywodraeth leol neu amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Atodwyd y disgrifiad swydd a'r ffurflen gais ar wahân. **Ni dderbynnir dogfennau CV.**

Dyddiad Cau Dydd Mawrth 14eg Rhagfyr 2021 (4pm) – cynhelir cyfweiliadau yn yr wythnos yn cychwyn ar y 19eg Rhagfyr 2021